# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6265

# 269

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-3 a 5-9. Cafodd cwestiynau 3 a 7 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd cwestiynau 1, 3, 4, 6, 8, 10 ac 11. Tynnwyd cwestiynau 2, 5 a 7 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 9. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 3.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 14.49

**Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**

**Alun Davies (Blaenau Gwent):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch cymorth i fusnesau a'r economi a wnaed ar 17 Mawrth 2020?

## 4 Cynnig i atal Reolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 14.49

**NNDM7309** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r eitem fusnes nesaf gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 18 Mawrth 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 15.21

**NNDM7310** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2020; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad A i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar 6 Mai 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Cynnig i newid enw'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.21

**NNDM7311** – Elin Jones (Ceredigion)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3:

1. Yn cytuno i newid enw a chylch gwaith Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd.

2. Yn nodi y bydd y newid yn dod i rym ar 6 Mai 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 15.22

**NNDM7312** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Busnes y Cynulliad ac Amgylchiadau Eithriadol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi bod y newidiadau hyn yn rhai dros dro, ac y byddant yn peidio â chael effaith pan gaiff y Cynulliad hwn ei ddiddymu.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig i ethol Cadeirydd Dros Dro a Llywydd Dros Dro dynodedig

Dechreuodd yr eitem am 15.30

**NNDM7313** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.24D, yn ethol David Melding yn Gadeirydd Dros Dro o dan y telerau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.24E.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.24A, yn ethol David Melding yn Llywydd Dros Dro dynodedig

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Datganiadau 90 Eiliad - WEDI'I OHIRIO

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 10 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Cytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad - WEDI'I OHIRIO

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 11 Dadl ar Ddeiseb P-05-912 - Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl - WEDI'I OHIRIO

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 12 Dadl Plaid Brexit - Creulondeb i Anifeiliaid - WEDI'I OHIRIO

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 13 Cyfnod pleidleisio

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio

## 14 Dadl Fer - TYNNWYD YN ÔL

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl

Daeth y cyfarfod i ben am 15.32

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2020**